


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU 7 yh nos Fawrth Hydref 4 2022

1. **Presennol :- Cyngorwyr :-** Michael Roberts, Aled Griffiths, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Gwilym Jones
Marian Roberts (Clerc)
 2. **Absennol :-** Cyng Dr Melfyn Edwards
 3. **Ymddiheuriadau :-**
Cyngorwyr :- Llinos Murphy; Keith Roberts
 4. **Llwybrau –** dim i'w drafod
 5. **Cae Bodawen**
 - **Penderfynu ar weithredu ar adroddiad G.L.Jones**
Penderfynwyd :- y Clerc i gysylltu â G.L.Jones i holi am bris paratoi a pheintio'r offer chwarae neu ein cyfeirio at gwmni arall fyddai'n ymgymryd â'r gwaith.
 - **Cyng Aled Griffith :- cynnig adnewyddu giât Cae Bodawen - Cael pris i osod polyn cadarn i dderbyn y giât fawr a gosod giât mochyn newydd i gerddwyr/cadeiriau olwyn. Neu cael pris i dynnu y giât fawr a gosod giât mochyn newydd i gerddwyr/cadeiriau olwyn.**
Penderfynwyd :- y Clerc i holi'r Gwasanaeth Ambiwlans ynglyn â gofynion mynediad i'r Cae Chwarae a gadael y cynnig ar y bwrdd.
- Cynllun Coedio Bodawen**
- **penderfynu ar amserlen a gwirfoddolwyr ar gyfer plannu coed**
Penderfynwyd :- y Clerc i gydweithio â'r ysgolion cynradd i lunio amserlen er mwyn i bob ysgol gael amser penodol i blannu eu coed – awgrymwyd y canlynol - Ysgol y Gorlan Tachwedd 8, Ysgol Borth y Gest Tachwedd 15 ac Ysgol Eifion Wyn Tachwedd 22. Bydd y Clerc yn cyfarfod yn fuan efo Hywyn Williams i drefnu ymhellach. Gwirfoddolodd Cyng Llywelyn Rhys i gynorthwyo Ysgol Eifion Wyn a'r Cyng Selwyn Griffiths i gynorthwyo Ysgol Borth y Gest.
 - **penderfynu ar labeli i'r coed**
Penderfynwyd :- y Clerc i basio ymlaen i'r ysgolion y syniad o bob plentyn i gynllunio ei label ei hun ar gyfer ei goeden ei hun.
6. **Bryn Coffa**
Cyng Aled Griffith :- cynnig gweithredu i ddiogelu terfyn Bryn Coffa
Penderfynwyd :- y Clerc i gael sgwrs anffurfiol gyda pherchnogion newydd y capel i holi os ydynt wedi gorffen tyllu i mewn i'r graig a'u holi am unrhyw gynlluniau pellach ar gyfer y safle.

7. Cae Pawb

Penderfynu ar ddyddiad archwiliad Tachwedd

Penderfynwyd :- cynnal yr archwiliad ar ddydd Sadwrn Tachwedd 5ed am 10 y bore.

8. Llochesi Bws - penderfynu ar gynllun glanhau llochesi o ddeall mai eiddo a chyfrifoldeb Cyngor Tref Porthmadog yw'r 7 lloches bws.

Penderfynwyd :- y Clerc i gysylltu'n ôl efo Criccieth Cleaning Ltd i gadarnhau eu cynnig i lanhau'r llochesi unwaith bob tri mis am flwyddyn ar gost o £806.40 ac adolygu'r sefyllfa eto mewn blwyddyn.

8. Cerflun Mr. Maddocks

Dim i'w adrodd.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.45

Marian Roberts
5.10.22